**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion y Panel Craffu Perfformiad - Addysg

**O bell drwy Microsoft Teams**

**Dydd Iau, 22 Chwefror 2024 am 4.00pm**

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd L R Jones (Cadeirydd) fu'n llywyddu

| Y Cynghorwyr | Y Cynghorwyr | Y Cynghorwyr |
|---|---|---|
| M Bailey | A Davis | A M Day |
| F M Gordon | B Hopkins | S Joy |
| J D McGettrick | F D O'Brien | A J O'Connor |
| B J Rowlands | | |

**Hefyd yn bresennol**
Matthew Bailey, Cynghorydd Ward Clydach
Brigitte Rowlands, Cynghorydd Ward Clydach

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| Helen Morgan-Rees | Cyfarwyddwr Addysg |
| Sarah Loydon | Ymgynghorydd Gwella Ysgolion |
| David Thomas | Prif Ymgynghorydd Gwella Ysgolion |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorwyr: S M Jones
Aelod(au) Cyfetholedig: Beth Allender
Hefyd yn bresennol: R Smith

---

## 131 Datganiadau o gysylltiadau personol a rhagfarnol

Dim

## 132 Gwahardd Pleidleisiau Chwip a Datgan Chwipiau'r Pleidiau

Dim

## 133 Cwestiynau gan y cyhoedd

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau gan y cyhoedd.

## 134 Sesiwn Craffu ar Ysgolion 2 - Ysgol Gynradd Clydach

Croesawodd y panel y Dirprwy Bennaeth/Pennaeth Dros Dro, Mr Roe, y Pennaeth newydd, Mr Jones, a Chadeirydd y Llywodraethwyr, Mr Nicholds, i'r cyfarfod.

Cytunodd y panel ar ddechrau'r flwyddyn ddinesig i gyfarfod â thair ysgol i drafod eu cynlluniau gwella ysgolion a chanlyniadau eu harolygiadau Estyn. Ysgol Gynradd Clydach oedd un o'r ysgolion hynny.

Rhoddwyd cyflwyniad Powerpoint i'r panel gan y Pennaeth Dros Dro a Chadeirydd y Llywodraethwyr a oedd yn trafod y pedwar cwestiwn a anfonwyd i'r ysgol cyn y cyfarfod, sef:

1. Allwch chi amlinellu'r cynnydd gyda'ch cynllun gwella ysgol, gan gynnwys unrhyw gynnydd gydag argymhellion Estyn ac wrth gyflwyno'r cwricwlwm newydd?
2. Beth yw rhwystrau'r ysgol rhag gwella deilliannau ei dysgwyr ymhellach, gan gynnwys unrhyw heriau rydych chi'n eu profi?
3. Beth yw blaenoriaethau'r cyrff llywodraethu a sut maent yn cael sylw?
4. Pa mor dda ydych chi'n teimlo y mae'r gefnogaeth gan yr awdurdod lleol, y gwasanaeth gwella ysgolion a Partneriaeth wedi bod?

Cododd y panel y materion canlynol i'w trafod ymhellach

- A yw lefel/nifer yr aelodau staff wedi newid a faint o aelodau staff sydd gennych sydd wedi bod yno ers cyn mis Tachwedd 2022.
- Sut ydych chi'n sicrhau bod rhieni'n cael gwybod am gynnydd yn yr ysgol?
- Sut y gwnaed cynnydd da a gwelliant nodedig yn yr ysgol ers arolygiad Estyn.
- Buddsoddi cyfalaf yn yr ysgol
- Y gefnogaeth y mae'r ysgol wedi'i derbyn oddi wrth y cyngor a Partneriaeth
- Sicrhau bod yr ysgol yn tywys yr holl athrawon ar y daith mewn perthynas â'r cwricwlwm i Gymru.
- Ymweliad nesaf Estyn a'r camau nesaf.

Bydd y Panel yn cyfleu eu teimladau llawn am y drafodaeth a gafwyd mewn llythyr i Aelod y Cabinet dros Addysg a Sgiliau.

135 **Cynllun Gwaith ar gyfer 2023/2024**

Nodwyd y Cynllun Gwaith ar gyfer 2023/2024. Caiff y cyfarfod ar 13 Mawrth 2024 ei symud i ddyddiad ym mis Gorffennaf 2024.

Daeth y cyfarfod i ben am 5.00pm

**Cadeirydd**